



2018-22

Cynllun Corfforaethol



Cyngor Tref Bae Colwyn
Neuadd y Dref, Ffordd Rhiw,
Bae Colwyn



Cynnwys

Rhagair gan Faer y Dref	2
Cyflwyniad	3
Trosolwg o'r Cyngor Tref	3
Y Weledigaeth, Cennad a'r Gwerthoedd Corfforaethol	6
Datganiad Llesiant	7
Amcanion Allweddol	7
Trosolwg o'r Gyllideb	8
Y Drefn Lywodraethol ac Atebolrwydd	9
Gweithgareddau Cyfoes	10
Gweithrediadau at y Dyfodol	11
Monitro ac Adolygu	12
Cysylltwch â Ni	13
Eich Cynghorwyr Lleol	13
Manylion Cyswllt Defnyddiol	16

Rhagair gan Faer y Dref

Mae'n bleser gennyf gael y cyfle hwn i gyflwyno'r Cynllun Corfforaethol cyntaf i'w gyhoeddi gan Gyngor Tref Bae Colwyn, ar gyfer y cyfnod o fis Mai 2018 - Mai 2022 (neu hyd at ddyddiad yr etholiadau lleol nesaf, os bydd hyn yn digwydd yn gynharach). Amcan cyffredinol y ddogfen yw crynhoi prif ddyheadau'r Cyngor am y cyfnod presennol o fod yn y swydd ag i amlinellu sut y bwriedir cyflawni'r rhain.

Y gobaith yw bydd hyn nid yn unig yn rhoi gwell dealltwriaeth i chi o waith y Cyngor Tref, ond hefyd yn ein helpu ni i reoli disgwyliadau ac i ganolbwyntio ar yr hyn rhaid i ni ei wneud yn y cyfnodau byr a chanolig i wireddu ein gweledigaeth, ein cennad a'n hamcanion.

Dylai ein Cynllun Corfforaethol rhoi hyder i chi wybod ein bod yn cynnal ardal Bae Colwyn mewn dull sy'n effeithiol, yn flaengar, yn gynaliadwy ac yn effeithlon. Fodd bynnag, nid ydym wedi ein cyfyngu gan y dyheadau a'r amcanion a welir yn y cynllun hwn ac rydym o hyd yn barod i wrando ar syniadau pobl eraill. Felly thema gyson trwy gydol y tymor sydd ar ddod bydd i weithio'n agos gyda'n Cymuned leol.

Cynghorydd Steve Williams, Maer Tref Bae Colwyn 2018-19



Cyflwyniad

Bwriad y Cynllun Corfforaethol hwn yw bod yn ddatganiad o Weledigaeth, Cennad ag Amcanion Allweddol y Cyngor Tref am y cyfnod presennol o fod yn y swydd. Y nod yw rhoi eglurder i'r trigolion lleol ar swyddogaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ac i roi manylion am yr hyn byddwn yn canolbwyntio ein sylw arno yn y pedair blynedd nesaf. Bydd hyn yn rhoi cyfarwyddyd i ni wrth baratoi'r gyllideb flynyddol ac yn ein cynorthwyo i ffurfio ein cynlluniau gwaith blynyddol.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn rhoi fframwaith i'r Cyngor weithio ynddo, gan roi cyfeiriad a'r gallu iddo weithio mewn dull sy'n canolbwyntio mwy, yn gyson ac yn gydraddol. Bydd yn gosod meincnod ar gyfer monitro ac adolygu perfformiad ac yn dangos bod y penderfyniadau a wneir yn gyson, tryloyw ac yn atebol.

Bydd y Cynllun Corfforaethol hefyd, yn rhoi gwell dealltwriaeth i'r gymuned leol o'r hyn mae'r Cyngor Tref yn ceisio cyflawni a beth yw cyfrifoldebau mudiadau cyhoeddus eraill, megis Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Bydd ar gael i'w weld ar ein gwefan a gellir gweld copi caled yn Neuadd y Dref ac yn llyfrgell Bae Colwyn.

Fe gynhelir adolygiad cynhwysfawr o'r Cynllun Corfforaethol yn dilyn yr etholiadau lleol nesaf (a ddisgwylir ar hyn o bryd i fod ym Mai 2022).

Ein Cynllun Corfforaethol yw ein prif ddull o adael i chi wybod beth yr ydym yn gwneud i gyfarfod anghenion ein cymuned leol. Gadewch i ni wybod eich barn - rydym yn croesawu eich sylwadau a byddem yn falch i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Cysylltwch â: Tina Earley, Clerc y Dref, Cyngor Tref Bae Colwyn, Neuadd y Dref, Ffordd Rhiw, Bae Colwyn 01492 532248 clerk@colwyn-tc.gov.uk

Trosolwg o'r Cyngor Tref

Mae Cyngor Tref Bae Colwyn yn fudiad corfforedig a grëwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Daeth i fodolaeth ym Mai 1995 fel rhan o'r ad-drefnu diwethaf o lywodraeth leol a welodd hefyd cread Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'n awdurdod lleol yn ei rhinwedd ei hun ac yn rhan o'r rheng gyntaf o lywodraeth leol, gyda rhan bwysig wrth roi ffurf a chefnogaeth i'r cymunedau maent yn ei chynrychioli.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw'r ail reng a'r rheng fwyaf o Lywodraeth Leol sy'n cyflenwi nifer o'n gwasanaethau lleol megis: priffyrdd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, casglu sbwriel, gwasanaethau amgylcheddol, cynllunio, trwyddedu ayb.

Mae gan y Cyngor Tref 24 o aelodau etholedig ac maent yn cynrychioli poblogaeth o oddeutu 25,000 ar draws chwe Ward: Rhos, Dinarth, Rhiw, Glyn, Eirias a Cholwyn. Mae'r rhain yn cynnwys cymunedau Llandrillo yn Rhos, Bae Colwyn (yn cynnwys Bae Colwyn Uchaf) a Hen Golwyn. Bydd y mwyafrif o'r Cyngorwyr Tref yn mynychu dau neu dri o gyfarfodydd pob mis ac, er bod ganddynt yr hawl i daliad bychan tuag at eu treuliau, nid ydynt yn cael eu talu am eu hamser. Mae nifer ohonynt yn sefyll am etholiad am ei bod eisiau gwneud gwahaniaeth i'r cymunedau maent yn cynrychioli.

Bydd y Cyngor Tref yn ethol Cadeirydd ym Mai pob blwyddyn ac mi fydd ef / hi yn cymryd y teitl Maer y Dref. Y Maer sy'n gyfrifol i sicrhau bod cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal yn effeithiol ac yn unol â'r rheolau (Rheolau Sefydlog), ond ef / hi hefyd yw arweinydd a llefarydd cyhoeddus y Cyngor ac yn ei gynrychioli mewn nifer o achlysuron a digwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Cyngor yn defnyddio Pwyllgorau i'w helpu i wneud penderfyniadau. Y ddau brif Bwyllgor yw Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a'r Pwyllgor Polisi a Chyllid. Mae gan y Pwyllgorau rhywfaint o awdurdod dirprwyol a byddant yn adrodd yn ôl i'r Cyngor llawn lle caiff unrhyw argymhellion eu hystyried a'u cadarnhau. Fel arfer, cynhelir y cyfarfodydd yn un o'r ystafelloedd cyfarfod llai yn Neuadd y Dref a bydd y Cyngor llawn yn cyfarfod ym mhrif Siambr y Cyngor. Mae nifer o is-bwyllgorau llai yn canolbwyntio ar feysydd penodol o waith megis Gwobrwyo Gwirfoddolwyr, Goleuadau'r Nadolig neu Is-Bwyllgor Noson y Tân Gwyllt.

Fe osodir agenda holl gyfarfodydd y Cyngor neu Bwyllgor ar yr hysbysfwrdd oddi allan i Neuadd y Dref ac ar wefan y Cyngor ac mae yna groeso i'r cyhoedd dod i'n cyfarfodydd i weld sut bydd y Cyngor yn gwneud ei benderfyniadau. Mae rhestr o ddyddiadau'r cyfarfodydd sydd ar ddod i weld ar ein gwefan ac fe gyhoeddir cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau ar-lein ar www.colwyn-tc.gov.uk

Mae'r materion a drafodi yn fwyaf cyffredinol gan y Cyngor Tref yn ymwneud a: ceisiadau cynllunio (rydym yn gorff ymgynghori statudol ar yr holl geisiadau sy'n effeithio ein hardal); dodrefn y stryd (arwyddion, hysbysfyrddau, meinciau, raciau beics, biniau sbwriel, llochesi fysus, goleuadau stryd ayb); parciau a mannau agored; a digwyddiadau. Bydd y Cyngor Tref yn rhoi cymorth ariannol yn rheolaidd tuag at ddigwyddiadau lleol a drefnir gan grwpiau o wirfoddolwyr a chlybiau lleol sy'n

gweithredu o fewn ei ardal (gweler yr adran grantiau ar ein gwefan i weld y manylion ar sut i wneud cais).

Yn aml, gofynnir iddo fod yn llais dros y gymuned leol ac iddo lobio pan fo pryderon am wasanaethau a roddir gan gyrff cyhoeddus eraill, neu fod angen eu gwella. Gall hyn gynnwys gwasanaethau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy megis priffyrdd, addysg neu wasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau cyhoeddus pwysig eraill megis plismona lleol neu faterion yn ymwneud ac iechyd.

Mae hefyd naill ai yn cael ei ymgynghori ar, neu yn chwarae rhan uniongyrchol trwy weithio mewn partneriaeth a'r Cyngor Sir ag eraill ar gyfer rhai prosiectau pwysig lleol, megis y rhaglen adnewyddu ddiweddar ym Mae Colwyn.

Mae nifer o aelodau'r Cyngor yn chwarae eu rhan trwy gynrychioli'r Cyngor ar fudiadau lleol eraill, megis grwpiau amgylcheddol, grwpiau busnes, canolfannau cymunedol, cyrff llywodraethu ysgolion a grwpiau eraill efo diddordeb lleol. Mae hyn yn helpu'r Cyngor i gadw mewn cysylltiad â'r hyn sy'n digwydd yn yr ardal leol.

Wrth gydnabod bod gan y Cyngor Tref swyddogaeth eang ag amrywiol, gall ond gwneud yr hyn mae'r gyfraith yn ei ganiatáu - sef **pwerau'r** Cyngor. Mae gan y Cyngor nifer o **ddyletswyddau** rhaid iddo gyflawni, er mai nifer fechan yw'r rhain. Mae pwerau'r Cyngor yn cynnwys y gallu i roi, neu gyfrannu tuag at ddarparu pethau megis cyfleusterau adloniant, gweithgareddau i ymwelwyr, gwyliau a digwyddiadau, y celfyddydau, llochesi fysis, cofebion rhyfel, mesurau i atal troseddau, biniau sbwriel, cyfleusterau cyfarfod a chynadledda, llwybrau troed, glanhau strydoedd ayb. Mae gan y Cyngor pwerau cyfyngedig i wario ar faterion eraill gan ddefnyddio Pŵer Llesiant, ond fe gyfyngir ar hwn yn ariannol yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Prif swyddog y Cyngor yw Clerc y Dref a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol (SAC) sy'n gyfrifol am baratoi agenda a chofnodion y cyfarfodydd, rhoi cyngor i'r Cyngor am ei gyfrifoldebau a'i phwerau cyfreithiol ac i weithredu penderfyniadau'r Cyngor. Fe gefnogir Clerc y Dref gan dîm bychan o staff a leolir yn Neuadd y Dref, yn cynnwys Clerc Cynorthwyol rhan amser, Swyddog Gweinyddu Cynorthwyol a gofalwr / glanhawr.

Y Weledigaeth, Cennad a'r Gwerthoedd Corfforaethol

Yn ddiweddar, ystyriodd y Cyngor Tref ei weledigaeth, cennad a'r gwerthoedd craidd ac fe'u cytunwyd fel a ganlyn:

Ein gweledigaeth yw bod yn gymuned glan y môr egnïol, cynhwysol a gofalgar

I wireddu'r weledigaeth hon ar gyfer y dyfodol, cymeradwywyd datganiad Cennad y Cyngor Tref ar 14eg Mai 2018:

Rydym yn ymrwymo i gynrychioli, i wrando ar ac i fod yn atebol i'r holl gymuned, i werthfawrogi ein treftadaeth, meithrin llesiant pawb ac i hybu amgylchedd ffyniannus ac egnïol ar gyfer y genhedlaeth bresennol a'r rhai sydd i ddod.

I wneud hyn, byddwn yn cysylltu â'r gymuned ac yn annog cydweithrediad, meddwl at yr hirdymor ag arloesi er mwyn creu effaith cadarnhaol ar lesiant pawb sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Bae Colwyn

Ein Gwerthoedd Craidd:

Mae nifer o werthoedd craidd yn sail i'n gweledigaeth a'n cennad a adlewyrchir yn yr hyn yr ydym yn ei ddweud ac yn e i wneud. Ein nod yw bod yn ...

Moesegol

Awdurdodol

Gonest a Dibynadwy

Parchus

Cynhwysol

Gofalgar a Cyfrifol

Datganiad Llesiant

Rydym yn cydnabod bod llesiant yn ymwneud a bod yn iach ag yn hapus ym mhob agwedd o'n bywydau, yn cynnwys iechyd corfforol a meddwl, cydberthynas da a bod yn rhan o gymunedau hydwyth.

Fe ymdrechwn i sicrhau ein bod yn ymgynghraedd at yr anghenion presennol heb amharu ar allu'r cenedlaethau sydd i ddod i gyfarfod ag anghenion eu hunain ac fe wnawn yr hyn yr ydym yn barnu i fod yn rhesymol tuag at flaenoriaethau ein Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus.

Amcanion Allweddol

Rydym wedi cytuno i ganolbwyntio ar y manau blaenoriaeth ganlynol ar gyfer y tymor sydd ar ddod:

- **Mae pobl yn addysgedig ac mae ganddynt fedrau**
- **Mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel**
- **Mae gan bobl cartrefi o safon dda y gallent eu fforddio**
- **Mae pobl yn iach ac yn fywiog, a phob oedran gyda llesiant meddyliol dda**
- **Mae pobl yn byw mewn tref sydd ag economi ffyniannus**
- **Mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn gwarchod yr amgylchedd ac yn cefnogi hydwythedd cymunedol**
- **Mae pobl yn byw mewn tref lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu**
- **Mae pobl yn hyddysg, yn gynwysedig, yn cael gwrandawriad ac yn gallu ychwanegu at eu cymuned ac felly, yn cefnogi Grymuso Cymunedol**

Dyma adlewyrchiad o flaenoriaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n cynnwys amcanion allweddol Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a welir yng Nghynllun Llesiant yr ardal leol a gyhoeddwyd ym Mai 2018.

Byddwn yn cytuno ar **gynllun gwaith** pob blwyddyn i ddangos yr hyn yr ydym yn bwriadu ei gyflawni pob blwyddyn i gyrraedd yr amcanion hyn. Byddwn hefyd yn cyhoeddi **Adroddiad Blynyddol** pob blwyddyn i egluro'r hyn a wnaed gennym.


Trosolwg o'r Gyllideb

Bydd y Cyngor Tref yn derbyn y mwyafrif o'i incwm trwy godi'r hyn a elwir yn 'archebiant' ar drigolion ardal Bae Colwyn. Treth leol yw hon a osodir gan y Cyngor Tref pob blwyddyn ac fe'i cesglir ar ein rhan gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, fel rhan o'r bil treth gyngor blynyddol.

Yn 2018/19, roedd cyfartaledd y bil treth gyngor (**eiddo Band D**) yn cynnwys £38.62 ar gyfer y Cyngor Tref. Mae hyn yn gyfystyr a £0.74 yn unig bob wythnos i deulu ar gyfartaledd ac yn creu cyfanswm incwm archebiant o £435,300.

Daw incwm arall o osod / rhentu ystafelloedd ar safle Neuadd y Dref i fudiadau eraill, grantiau un-pwrpas, incwm o ddigwyddiadau a llog / incwm o fuddsoddiadau.

Ffig.1: Ffynonellau Incwm (2018/19)




Bydd y Cyngor yn cytuno ar wariant y gyllideb erbyn Ionawr pob blwyddyn ac yn defnyddio hyn i benderfynu ar faint yr archebiant sydd angen ei gasglu oddi wrth y trigolion lleol. Gellir rhestru'r eitemau o wariant sydd ei angen pob blwyddyn dan y penawdau cyffredinol canlynol:

- Costau gweinyddol: staff, teithio, hyfforddiant, yswiriant, archwilio, taliadau proffesiynol, offer swyddfa a TG, cefnogaeth TG a meddalwedd, cyhoeddusrwydd
- Gwariant Dinesig: gwariant y Maer a digwyddiadau trefol
- Gwariant Democrataidd: costau teithio aelodau, lwfansau, costau hyfforddiant ag etholiadau
- Safle Neuadd y Dref / Ffodd Rhiw: yr holl gostau yn ymwneud a'r safle

- Grantiau a Rhoddion: bach (llai na £500) a grantiau mwy i fudiadau lleol, ysgoloriaethau, grantiau ieuenctid
- Digwyddiadau: cyllid am ddigwyddiadau a drefnir gan y Cyngor Tref, megis y noson tân gwylt blynyddol a chyllid i gefnogi eraill sy'n cynnal digwyddiadau yn yr ardal leol.
- Colwyn yn ei Blodau: prosiectau amgylcheddol amrywiol
- Theatr Colwyn: cefnogi'r theatr leol
- Prosiectau Cymunedol: amrywiaeth o brosiectau yn seiliedig ar y gymuned yn cynnwys cynlluniau chwarae yn yr haf, goleuadau Nadolig, TCC, parciau a gerddi, dodrefn y stryd ag ymgysylltu a'r gymuned.
- Prosiectau Cyfalaf: darparu offer chwarae ledled y meysydd chwarae lleol dan berchnogaeth y Cyngor Sir

Cyfanswm y gwariant yng nghyllideb 2018/19 yw £532,175, gyda'r diffyg o £68,675 yn cael ei dalu o'r arian wrth gefn cyffredinol.

Ffig.2: Prif eitemau gwariant 2018/19



Y Drefn Lywodraethol ac Atebolrwydd

Nod y Cyngor yw bod yn agored ac yn atebol ym mhob agwedd o'r hyn mae'n ei wneud, wrth sicrhau rheolaeth gadarn a trwyadl o'i asedau ac adnoddau. Fe wneir hyn trwy Reolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol a Rheolaethau Mewnol a thrwy fabwysiadu ymarferiadau rhagweithiol o reoli risg. Mae'r Cyngor yn gorfod cael archwiliadau mewnol ag allanol pob blwyddyn ac fe gyhoeddir y canlyniadau ar ein gwefan a'n hysbysfwrdd.

Gweithgareddau Cyfoes

Nod y rhan yma yw cyflwyno i chi trosolwg o'r hyn mae'r Cyngor yn gwneud ar hyn o bryd tuag at gyflawni ei amcanion breision a amlinellir ar dudalen 7.

- **Mae pobl yn addysgedig ac mae ganddynt fedrau**
 - Penodi llywodraethwyr cymunedol i bob ysgol gynradd
 - Cefnogi mudiadau lleol (trwy grantiau) i helpu pobl i ddatblygu medrau newydd
 - Cynnig ystafelloedd cyfarfod / hyfforddiant am bris isel yn Neuadd y Dref
- **Mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel**
 - Datblygu a chydlynu prosiect prawf ar Hydwythedd Cymunedol
 - Cyfrannu tuag at ddarparu TCC
 - Gweithio'n agos gyda'r tîm plismona cymdogol ar faterion lleol.
 - Trefnu'r noson tân gwyllt blynyddol i annog pobl i aros yn ddiogel ar y noson tân gwyllt.
- **Mae gan bobl cartrefi o safon dda y gallent eu fforddio**
 - Ymateb i ymgynghoriadau ar y Cynllun Datblygu Lleol
 - Bod a Phwyllgor Cynllunio gwybodus a rhagweithiol sy'n cefnogi datblygiadau o safon dda mewn mannau addas a chynaliadwy
- **Mae pobl yn iach ac yn fywiog, a phob oedran gyda llesiant meddyliol dda**
 - Cefnogi mudiadau lleol sy'n darparu gweithgareddau cymdeithasol ac adloniadol (gyda grantiau)
 - Caffael cynlluniau chwarae haf gyda mynediad agored i blant lleol
 - Cyllido offer chwarae newydd ag offer a amnewidiwyd a chefnogi ein parciau, gerddi, lan y môr a choedwigoedd lleol
 - Rhoi grantiau i brosiectau ieuencid a'u gweithgareddau
 - Cefnogi prosiectau a gweithgareddau sy'n hybu iechyd a llesiant meddwl, e.e. Cyfeillion Dementia Llandrillo yn Rhos.
- **Mae pobl yn byw mewn tref sydd ag economi ffyniannus**
 - Cefnogi a gweithio gyda'r gymuned busnes lleol (trwy Ddosbarth Gwella Busnes Colwyn a mudiadau busnes / masnach leol)
 - Cefnogi gweithgareddau sy'n dod a thwristiaid ag ymwelwyr i'r dref am y diwrnod, e.e. arddangosfeydd, digwyddiadau, goleuadau dathlu a marchnata.
- **Mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn gwarchod yr amgylchedd ac yn cefnogi hydwythedd cymunedol**
 - Cyllido gweithgareddau Pwyllgor Colwyn yn ei Blodau, sy'n gweithio'n galed trwy'r flwyddyn i hybu'r amgylchedd lleol

- Gwneud Bae Colwyn yn lle deniadol i fyw ynddo, i ymweld neu i gynnal busnes ynddo
 - Cyllido ymgyrchoedd yn erbyn sbwriel a chŵn yn baeddu
 - Cynnal archwiliadau amgylcheddol (mewn partneriaeth gyda mudiadau eraill) a chefnogi ymgyrchoedd i lanhau'r traethau / amgylchedd lleol.
 - Rhoi cyllid tuag at ddodrefn y stryd a gwelliannau amgylcheddol eraill, trwy roi grantiau a lwfansau ward yr aelodau lleol.
- **Mae pobl yn byw mewn tref lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu**
 - Cefnogi Ymgyrch Cronfa Treftadaeth y Loteri (CTL) - Llefydd Arbennig- 'IMAGINE Bae Colwyn'. Cyllid grant tuag at brosiect treftadaeth a chelfyddydol.
 - Cefnogi a chyflwyno Adloniant a'r Celfyddydau e.e. trwy roi cefnogaeth ariannol i Theatr Colwyn
 - Rhoi cyllid grant tuag at ddigwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol, e.e. Eisteddfod Genedlaethol 2019
 - Hybu / cefnogi'r iaith Gymraeg e.e. cyllid grant tuag at daflen newyddion yn yr iaith Gymraeg.
 - Storio / arddangos arteffactau a regalia dinesig.
 - Darparu digwyddiadau trefol, megis Sul y Cofio (mewn partneriaeth a'r Lleng Prydeinig ac Eglwys St Paul), Noson Gwobrwyo Gwirfoddolwyr a'r Gwasanaeth Dinesig blynyddol.
 - Rhoi cefnogaeth glerigol ac Ymddiriedolwyr i nifer o elusennau hynafol a gweithredu fel ceidwad cofeb rhyfel Bae Colwyn a Chloc Cofio am Andrew Fraser yng nghanol y dref.
 - **Mae pobl yn hyddysg, yn gynwysedig, yn cael gwrandawriad ac yn gallu ychwanegu at eu cymuned ac felly, yn cefnogi Grymuso Cymunedol**
 - Mae aelodau'r Cyngor yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd a'r trigolion lleol, yn anffurfiol fel rhan o'u gweithgareddau beunyddiol, neu yn fwy ffurfiol pan fo'r angen yn codi, e.e. prosiectau penodol.
 - Cefnogi a mynychu digwyddiadau lleol
 - Hybu democratiaeth leol
 - Rhoi llais i drigolion lleol ynglŷn â materion lleol sy'n effeithio arnynt o ddydd i ddydd, ar hyd ei hoes.

Gweithgareddau at y Dyfodol

Yn ystod oes y cynllun, byddwn yn ystyried yn rheolaidd, prosiectau a gweithgareddau ychwanegol a fydd yn cyfrannu tuag at un neu fwy o'r amcanion allweddol hyn. Fe

gofnodir y rhai a dderbynnir yn y cynllun gwaith blynyddol ac fe adroddir arnynt yn yr Adroddiad Blynyddol. Fe welir Cynllun Gwaith 2018-19 yn Atodiad A sydd gyda hwn

Monitro ac Adolygu

Bydd y perfformiad yn erbyn yr amcanion a gytunwyd gennym yn cael ei fonitro pob chwarter gan y Cyngor llawn a lle bynnag mae'n bosibl, caiff ei fesur gan ddefnyddio cynhyrchion a chanlyniadau mesuradwy. Bydd y dull o ddynodi prosiectau a gweithgareddau newydd, cytuno ar weithgareddau, gosod cyllidebau, monitro perfformiad ac adolygu cynnydd yn gylch parhaol, gyda'r camau allweddol canlynol:

- Cymeradwyo cynllun gwaith blynyddol (erbyn Rhagfyr pob blwyddyn)
- Gosod cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol (Ionawr)
- Adolygiad o gynnydd pob chwarter (Mehefin, Medi, Rhagfyr, Mawrth)
- Cyflwyno Adroddiad Blynyddol (Mai) yn crynhoi'r cynnydd a wnaed / gweithgareddau a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol ac amlinellu dyheadau allweddol am y flwyddyn sy'n dod.
- Adolygu amcanion allweddol yng Nghynllun Llesiant Ardal leol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chynnwys rhai newydd (pob blwyddyn pan gaiff ei gyhoeddi).

Ffig 3: Cylch Cynllunio / Cyllideb / Cyflawni / Monitro / Adolygu:



Cysylltwch â ni:

Am fwy o wybodaeth am y Cyngor Tref ac am ddiweddariadau ar newyddion a digwyddiadau lleol ayb, cewch ymweld â'n gwefan www.colwyn-tc.gov.uk

Cewch ein gweld hefyd ar Facebook neu Twitter - chwiliwch am 'Cyngor Tref Bae Colwyn'. Fel arall, cewch roi galwad i ni ar 01492 532248, neu galwch i'n gweld yn Neuadd y Dref, Ffordd Rhiw, Bae Colwyn Bay (ger Eglwys St Paul).

Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw sylwadau, ymholiadau neu bryderon a all efallai fod o ddiddordeb neu'n berthnasol i'r Cyngor Tref. Rydym o hyd yn falch i glywed sylwadau'r trigolion, busnesau lleol ag ymwelwyr i'r ardal.

I gysylltu ag un o'ch Cyngorwyr Tref leol, ewch i dudalen 'Cyngorwyr' ar ein gwefan, neu edrychwch ar y manylion isod / trosodd (rhestrir fesul ardal y Ward).

Eich Cyngorwyr Lleol:

Mae'r Cyngor Tref wedi ei rannu'n chwe ardal, a'r enwau a roddir amynt yw Wardiau, gyda phob Ward yn cael ei gynrychioli gan ei gynrychiolwyr etholedig ei hun. Fe welir manylion am yr aelodau etholedig presennol yma:

Cyngorwyr Bae Colwyn: Ward Rhiw



Cyngorydd Neil Bastow
546586 / 07722 427885
metalbastow2106@zoho.com



Cyngorydd Adam Kealey
08adamkealey@gmail.com



Cyngorydd Mick Pickard
530110
soundings1@btinternet.com



Cyngorydd Stephen Williams
07885 255099
stevewilliams_147@hotmail.com



Cyngorydd Malcolm Worth
07986 315853
malcolmworth@gmail.com

Cynghorwyr Bae Colwyn: Ward Glyn



Cyngorydd Chris Hughes
535973 / 07960 014931
cllr.chris.hughes@conwy.gov.uk



Cyngorydd Abdul Khan
07596 497329
cllr.abdul.khan@conwy.gov.uk



Cyngorydd Colin Matthews
518018
colinmatthews55@yahoo.co.uk



Cyngorydd Paul Richards
532397
awelfan@gmail.com

Cynghorwyr Llandrillo yn Rhos: Ward Rhos



Cyngorydd Glenys Baker
07485 042432
bakerglenys@hotmail.co.uk



Cyngorydd Chris Brockley
07463 770540
chris.brockley@gmail.com



Cyngorydd Gemma Campbell
07393 974895
rhosgem@gmail.com



Cyngorydd Hannah Fleet
07732 605123
cllrhannahfleet@gmail.com



Cyngorydd Hazel Meredith
hazelmredith@btinternet.com

Cynghorwyr Llandrillo yn Rhos: Ward Dinerth



Cynghorydd David Howcroft
07901 690797
davehowcroft65@btinternet.com



Cynghorydd Jeff Pearson
592436 / 07886 198070
geffy31@yahoo.co.uk



Cynghorydd Max Tasker
07538 013782
maxtasker@yandex.com

Cynghorwyr Hen Golwyn: Ward Eirias



Cynghorydd Bob Barton
07931 330171
bob4eirias@gmail.com



Cynghorydd Adrian Mason
07812 678910
adriangmason@gmail.com



Cynghorydd Anthony Pearson
info@colwyn-tc.gov.uk

Cynghorwyr Hen Colwyn: Ward Colwyn



Cynghorydd Dave Bradley
07715 670883
david.bradley407@btinternet.com



Cynghorydd Mark Jones
07946 632229



Cynghorydd Merrill Jones
515465
merrill2010@hotmail.com



Cynghorydd Kate Swindon
kateswindon1@gmail.com

Cysylltwch â ni

Chwiliwch ein gwefan:
www.colwyn-tc.gov.uk/councillors i gael y wybodaeth
gyswllt ddiweddaraf am eich Cynghorwyr lleol.

Manylion Cyswilt Defnyddiol:

Cyngor Tref Bae Colwyn:	www.colwyn-tc.gov.uk 01492 532248
Siop Cynorthwyo Gyda Budd-daliadau	01745 345145
Cyngor ar Bopeth	0300 330 1158
Llyfrgell Bae Colwyn	01492 577510
Canolfan Hamdden Colwyn	01492 577900
Gwasanaethu Cymunedol a Gwirfoddol Conwy	www.cvsc.org.uk 01492 534091
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	www.conwy.gov.uk
– Y Prif Switsfwrdd	01492 574000
– Budd-daliadau	01492 576491
– Bathodyn Glas	01492 577800
– Treth y Cyngor	01492 576607
– Datrys Digartrefedd yng Nghonwy	0300 124 0050
– Cynllunio	01492 575247
– Ailgylchu, Priffyrdd, Goleuadau Stryd	01492 575337
Argyfyngau y tu allan i oriau (holl wasanaethau'r Cyngor)	01492 515777

Ffôn Testun: Ffoniwch 18001 + rhif y gwasanaeth rydych ei angen

Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Conwy & Sir Ddinbych

www.conwyanddenbighshirelsb.org.uk

Tîm Plismona Cymdogaethol:
(Yr Arfordir Gorrlewinol)

www.north-wales.police.uk/your-neighbourhood

Llywodraeth Cymru

www.gov.wales